Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 4 Medi 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, Miss S. Fleming, Mrs J. Hughes, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**26. YMDDIHEURIADAU A CHYFLWYNIAD**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker a Ms J. L. McAlpine.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gyflwyno medal hir wasanaeth i'r Cynghorydd Mrs J. Hughes i ddynodi 12 mlynedd o wasanaeth fel Cynghorydd Ward Bodfor.

**27. SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – WARD TRELLEWELYN, Y RHYL**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y cynhelir etholiad ddydd Iau, 26 Medi 2024, ac y byddai dau ymgeisydd, Mr David Jones (Llafur Cymru) a Mr Will Price (Ceidwadwyr Cymreig).

**28. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

Mis Gorffennaf

| Taleb rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1854 | BT | 551.61 | Galwadau ffôn a llogi'r llinell ffôn |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1865 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| 1847 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,425.73 | Cyflogau net – mis Gorffennaf 2024 |
| 1845 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,959.92 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Mehefin 2024 |
| 1846 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,173.10 | Didyniadau pensiwm – mis Mehefin 2024 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 4 o 10 |
| 1848 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 4 o 12 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£17,174.67** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysi 31 diwrnod | 286.44 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.08 |
| HMRC | Ad-daliad Treth ar Werth Chwarter 1 (mis Ebrill – mis Mehefin 2024) | 933.60 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.08 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.09 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£1,298.29** |

<u>Mis Awst</u>

| Taleb rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1873 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| 1877 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,425.72 | Cyflogau net – mis Awst 2024 |
| 1875 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,960.11 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Gorffennaf 2024 |
| 1876 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,173.10 | Didyniadau pensiwn – mis Gorffennaf 2024 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 5 o 10 |
| 1848 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 5 o 12 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnatol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£16,623.24** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 6 mis sydd wedi aeddfedu | 1,975.07 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 19 Awst 2024 | 802.19 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Taliad praesept 2 o 3 blwyddyn 2024/25 | 190,698.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£193,771.25** |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 29. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)</u>

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddogfen Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1874 | Zoom | Adnewyddu'r cyfrif Zoom am y flwyddyn 2024 | 155.88 |
| 1878 | Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel | Dau docyn i ddigwyddiad elusennol ar 5 Medi 2024 | 20.00 |
| 1879 | Cyng. C. L. Williams | Lwfans y Maer 24/25 – taliad 2 o 3 | 433.34 |
| 1880 | Cyng. A. Walker | Lwfans y Dirprwy Faer 24/25 – taliad 2 o 3 | 133.34 |
| 1881 | Cyng. C. L. Williams | Lwfans Uwch Swydd 24/25 – taliad 2 o 3 | 166.67 |
| 1882 | Cyng. A. Walker | Lwfans Uwch Swydd 24/25 – taliad 2 o 3 | 166.67 |
| 1883 | Sage & Co | Ffioedd cyflogres Chwarter 1 24/25 | 108.00 |
| 1884 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 293.70 |
| 1885 | Canda Copying Ltd | Rhent llungopïwr | 259.32 |
| 1886 | Canda Copying Ltd | Ffioedd llungopïwr | 261.46 |
| 1887 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Ffi aelodaeth 2024 | 110.00 |
| 1888 | Home Bargains | Nwyddau swyddfa a deunyddiau glanhau | 40.67 |
| 1889 | CCLL Gogledd Cymru | Dau docyn i ddigwyddiad Te Prynhawn i godi arian ar 10 Medi 2024 | 28.00 |
| 1890 | BJS Solutions | Contract cymorth caledwedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu 2024/25 | 1,554.00 |
| 1891 | Cyngor Tref Bae Colwyn | Dau docyn i noson Cwis Elusennol ar 14 Medi 2024 | 16.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£3,747.05** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i wneud y taliadau a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 30. CYFRIFON ARIANNOL I 31 GORFFENNAF 2024 A RHAGFYNEGIAD 2024/25

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos rhagfynegiad o warged gwerth £106,423 (cyn trosglwyddo arian i gronfeydd wrth gefn penodol), er y gallai hyn newid yn dilyn ystyried dwy eitem ar yr agenda heno.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

## 31. PENODI LLYWODRAETHWR YSGOL CYMUNEDOL YCHWANEGOL – YSGOL CHRISTCHURCH

Ymhellach i gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, adroddodd y Cadeirydd fel y Cynghorydd Mrs D. L. King o'r swydd fel Llywodraeth Ysgol a benodwyd gan y Cyngor Tref, a gofynnodd i'r aelodau ystyried enwebu cynrychiolydd arall.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Mrs E. M. Chard.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.*

## 32. POLISI ARFAETHEDIG Y CYNGOR TREF: Y BROSES PENNU'R GYLLIDEB

Yn unol ag argymhellion Archwilydd Mewnol y Cyngor, cynghorodd Clerc y Dref fod y broses gadarn a ddefnyddiwyd gan y Cyngor Tref ers 2017 angen ei ffurfioli ar ffurf Polisi'r Cyngor Tref, fel yr awgrymwyd yn Atodiad 1, i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Polisi'r Broses Pennu'r Gyllideb.*

## 33. EITEM GAN AELOD: PARCIO AR Y PALMENTYDD

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE am gefnogaeth yr aelodau i gyfleu sylwadau i'r awdurdodau priodol i leihau nifer y cerbydau sy'n parcio ar balmentydd.

Cytunodd yr aelodau fod hyn yn digwydd ar draws y Rhyl, a'i fod yn anghyfleus ac yn edrych yn fler, ac yn arwain at ddifrodi'r cerrig palmant. Mewn rhai sefyllfaoedd roedd parcio anystyriol yn gwneud gwelededd ar gyffyrdd a chorneli yn gyfyngedig gan greu perygl.

Ychwanegodd aelod fod tueddiad i berchnogion cerbydau trydan barcio mor agos at eu cartrefi a'u mannau gwefru ag y bo modd, a oedd yn rhan o'r broblem hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn ysgrifennu at Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych, Mr Emlyn Jones, i'w hysbysu am y broblem a holi pwy sy'n gyfrifol am orfodaeth rheolau parcio.*

## 34. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 35. CAIS GAN GWMNI DIGWYDDIADAU

Adroddodd Clerc y Dref, mewn cyfrinachedd, fod unigolyn wedi cysylltu yn gofyn am gymorth (nid cymorth ariannol) a chyngor y Cyngor Tref am ddigwyddiadau potensial yn y dyfodol yn y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n hapus i dderbyn cyflwyniad gan yr unigolyn a'u partneriaid trefnu yn y dyfodol, unwaith y penderfynwyd ar y math o ddigwyddiad.*

**36. PENWYTHNOS HWYL HIRDDYDD HAF**

Dywedodd y Cadeirydd y derbyniwyd gohebiaeth gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch y digwyddiad Penwythnos Hwyl Hirddydd Haf a gynhaliwyd yn Theatr y Pafiliwn, y mae'r Cyngor Tref yn gwneud cyfraniad ariannol tuag ato, er gwybodaeth i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *gofyn i Glerc y Dref fynegi llongyfarchiadau'r aelodau am y perfformiad a'u bod yn teimlo y byddai cael arweinydd i'r digwyddiad wedi gwella mwynhad pobl yn fwy er mwyn dal eu sylw rhwng pob perfformiwr.*

**37. POLISI ARFAETHEDIG Y CYNGOR TREF: YMDDYGIAD ANNERBYNIOL TUAG AT GYNGHORWYR / STAFF**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ystyried a chymeradwyo gweithredu polisi drafft ynghylch ymddygiad annerbynniol tuag at aelodau'r Cyngor Tref a'i staff (dosbarthwyd polisi cyfatebol Cyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda, er gwybodaeth).

Cafwyd nifer o enghreifftiau o ddioddef cam-drin geiriol ac ymddygiad bygythiol yn ystod eu cyfnod fel cynghorwyr gan yr aelodau.

Hysbysodd aelod fod Comisiynydd yr Heddlu wedi'i hysbysu am ddeddf Cyfathrebu Maleisus y gallai pob gyfeirio ati wrth hysbysu am y digwyddiadau hyn.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Byddai'r Cynghorydd A. J. Rutherford yn rhoi manylion cyswllt swyddog heddlu a roddodd gyflwyniad i Asiantau ac Ymgeiswyr cyn yr Etholiad Cyffredinol eleni, gyda'r nod o'i wahodd i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i roi cyngor am gadw'n ddiogel.*

*(ii) Clerc y Dref i ddrafftio Polisi Ymddygiad Annerbyniol sy'n berthnasol i'r cynghorwyr a'r staff.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.*

**38. CYNGOR SIR DDINBYCH – YMGYNGHORI YNGHYLCH TOILEDAU CYHOEDDUS**

Ymhellach i gofnod rhif 23 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2024, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad mewn cyfrinachedd (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i gynorthwyo'r aelod wrth ystyried y cais gan Gyngor Sir Ddinbych i'r Cyngor Tref ddarparu cymorth ariannol i alluogi parhau i weithredu'r toiledau cyhoeddus yn y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cyngor Tref yn barod i barhau i gynnal trafodaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch peth darpariaeth.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.*

**39.** **<u>CYNGOR SIR DDINBYCH / TWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU – CAIS AM GYMORTH ARIANNOL</u>**

Ymhellach i gofnod rhif 47 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024, cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad cyfrinachol ac argymhellion yr Is-bwyllgor Pwysau ar Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd ar wahân i'r agenda) ynghylch y cais uchod.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo 50% o'r cais (£8,100) i sicrhau bod Canolfan Groeso'r Rhyl yn parhau ar agor o fis Hydref tan fis Rhagfyr 2024.*

***<u>PENDERFYNWYD YMHELLACH</u>*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.*

**[Datganodd y Cynghorydd A. R. James fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych gyda'r maes hwn yn ei bortffolio, a gadawodd y Siambr ac ni chymrodd ran yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem hon.]**

**40.** **<u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: …………………………

Dyddiad: ……………………………